# Deunyddiau Ategol
# ar gyfer
# Maes Llafur Cytûn Merthyr Tudful

Bydd y ddogfen hon yn parhau'n fyw a chaiff ei diweddaru'n rheolaidd wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno a'i ddatblygu.

Bydd aelodau CYSAG Merthyr Tudful yn cymryd cyfrifoldeb am ddiweddaru'r ddogfen gyda chefnogaeth Pennaeth Cyflawniad a Llesiant Awdurdod Lleol Merthyr Tudful.

Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL County Borough Council

## Cynnwys


| Tudalen | Pennawd |
|---|---|
| 3-6 | Dolenni i adnoddau priodol |
| 7-8 | Dysgu a Chymorth Proffesiynol |
| 9 | Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynrychiolir yn lleol ym Merthyr Tudful |
| 10 | Dolenni i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yng Nghymru |
| 11-12 | Cyfoethogi Profiad y Dysgwr o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg |
| 12-13 | Ysbrydolrwydd |
| 14-15 | Yr Hawl i Dynnu'n Ôl yn y Cwricwlwm i Gymru |
| 16 | Addysgu Pynciau Sensitif a Llosg |
| 17-20 | Cynadleddau Maes Llafur Cytûn Merthyr Tudful a'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar CGM |

# Adran 1:

# Adnoddau

Mae'r ethos o gyd-adeiladu a sybsidiaredd wrth galon y Cwricwlwm i Gymru.

**Baha'i**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/bahai/

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22bahai%22%3A%7B%22term_id%22%3A%228%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Bwdhaeth**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/buddhist-worldview-traditions/

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22buddhist%22%3A%7B%22term_id%22%3A%229%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Cristnogaeth**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/christian-worldview-traditions/

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22christian%22%3A%7B%22term_id%22%3A%2210%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Cwricwlwm**

https://www.reonline.org.uk/leadership/curriculum/

**Moeseg**

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22ethics%22%3A%7B%22term_id%22%3A%22128%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Hindŵaeth**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/hindu-worldview-traditions/

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22hindu%22%3A%7B%22term_id%22%3A%2213%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Islam**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/muslim-worldview-traditions/?page_id=371

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22muslim%22%3A%7B%22term_id%22%3A%2215%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Jainiaeth**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/jain/?page_id=372

**Tystion Jehofa**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/jehovahs-witnesses/

**Iddewiaeth**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/jewish-worldview-traditions/

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22jewish%22%3A%7B%22term_id%22%3A%2217%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol:**

Dyneiddiaeth:

https://understandinghumanism.org.uk/

https://www.reonline.org.uk/knowledge/humanist-worldview-traditions/

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22humanist%22%3A%7B%22term_id%22%3A%2214%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

Anffyddiaeth:

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22atheist%22%3A%7B%22term_id%22%3A%22114%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

CGM: Deall argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a byd-olygon

Adnodd dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon CGM yn y sectorau cynradd ac uwchradd. Bydd yr adnodd hwn yn cefnogi dealltwriaeth yr ymarferwyr o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol a byd-olygon. https://www.cscjes-cronfa.co.uk/repository/resource/18a1aa9c-bffa-420f-868c-4aa23d8e38b5/cy

**Paganiaeth**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/pagan/?page_id=376

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22pagan%22%3A%7B%22term_id%22%3A%2219%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Athroniaeth**

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22philosophy%22%3A%7B%22term_id%22%3A%22113%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Rastaffariaeth**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/rastafari/

**Ymchwil**

https://www.reonline.org.uk/research/

**Siciaeth**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/sikhism/

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22sikhi%22%3A%7B%22term_id%22%3A%2224%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Soka Gakkai**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/soka-gakkai/

**Eglwys Iesu Grist Saint y Dyddiau Diwethaf**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/the-church-of-jesus-christ-of-latter-day-saints/

https://www.reonline.org.uk/teaching-resources/?filters=%7B%22the-church-of-jesus-christ-of-latter-day-

saints%22%3A%7B%22term_id%22%3A%2266%22%2C%22taxonomy%22%3A%22religion%22%7D%7D

**Byd-olygon**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/contextualising-the-diversity-of-worldviews/

https://www.reonline.org.uk/resources/telling-my-worldview-story/

**Zoroastriaeth**

https://www.reonline.org.uk/knowledge/zoroastrian/?page_id=365

## Adran 2:

## Cyfleoedd a Chymorth Dysgu Proffesiynol

Hwb

https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales

CCYSAGauC

https://wasacre.org.uk/

CYS Merthyr Tudful ar gyfer CGM

Learning in Merthyr Tydfil | Merthyr Tydfil County Borough Council

Consortiwm Canolbarth y De

https://www.cscjes-cronfa.co.uk/

NATRE

https://www.natre.org.uk/

RETodayoday

https://www.retoday.org.uk/

Canolfan San Silyn Wrecsam

https://stgilescentre.org/

Prifysgol De Cymru

https://www.southwales.ac.uk/about/schools-and-colleges/

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

https://www.uwtsd.ac.uk/?utm_source=whatuni&utm_medium=referral&utm_content=webclick

Prifysgol Bangor

https://www.bangor.ac.uk/courses?term=religion&level_of_study=All&academic_school=All&field_course_year_start_value=All&field_pgr_start_yr_multi_value=All&field_pgt_start_yr_multi_value=All&field_course_start_date_type_value=All&ug_subject_area=All&ug_subject_combination=All&ug_course_type=All&pgt_subject_area=All&pgt_course_type=All&pgt_course_mode=All&pgt_start_date=All&pgr_subject_area=All&pgr_course_type=All

Prifysgol Caerdydd

https://www.whatuni.com/degree-courses/csearch?subject=theology-religion&university=cardiff-university&location=wales

# Adran 3:

# Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a gynrychiolir yn lleol ym Merthyr Tudful

**Grwpiau:**

Tystion Jehofa, Stryd Newydd y Castell

Y Gideoniaid Rhyngwladol, Cefn y Bannau

Grŵp Gweithredu Twyn, The Hall, Heol Glasier

Positive Connections, Filas Brynhyfryd, Troed-y-rhiw

**Lleoedd:**

Eglwys Ysbrydegwyr Merthyr Tudful, Stryd Newydd y Castell

Eglwys Elim, Stryd y Llys, Merthyr Tudful

Canolfan y Willows, Troed-y-rhiw

Clwb Bechgyn a Merched Treharris, Heol y Goedwig, Treharris

Addysg Gymunedol Pen-y-dre, Gurnos, Merthyr Tudful

**Dolenni:**

Mae Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru yn meddu ar stôr o wybodaeth ddiddorol ac mae ganddi adnoddau gwych i gefnogi CGM, gyda llawer o botensial ar draws a thu hwnt i Faes Dysgu a Phrofiad (MDPh) y Dyniaethau:

https://www.jhasw.com/

## Adran 4:

## Dolenni'n ymwneud â Chrefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cymru

**Grwpiau:**

Gwefan Addysg yr Eglwys yng Nghymru, gan gynnwys eu Canllawiau ar gyfer CGM:
https://www.churchinwales.org.uk/en/about-us/education/

Gwasanaeth Addysg Gatholig – Cymru:
https://www.catholiceducation.org.uk/wales

**Lleoedd:**

Canolfan Bwdhaeth Caerdydd – https://www.cardiffcuddhistcentre.com

# Adran 5:

## Cyfoethogi Profiad y Dysgwr o Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Pa ddull bynnag a ddefnyddir i gynllunio'r cwricwlwm, anogir yr ysgolion a'r sefydliadau o fewn ardal yr Awdurdod Lleol ym Merthyr Tudful i sicrhau darpariaeth gyfoethog ar gyfer dysgu Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg drwy amrywiaeth eang o brofiadau. Mae profiadau dysgu yn agwedd ganolog ar athroniaeth y Fframwaith Cwricwlwm i Gymru. Wrth gynllunio eu cwricwlwm, dylai ysgolion a sefydliadau Merthyr Tudful sicrhau y cynigir amrywiaeth o brofiadau i'r dysgwyr sy'n briodol yn ddatblygiadol, ac sy'n berthnasol i Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Gall y profiadau hyn gynnwys cyfleoedd i wneud y canlynol:

- ymgysylltu â chymunedau lleol crefyddol ac anghrefyddol, mewn ffyrdd a fydd yn ystyrlon ac yn werthfawr i'r dysgwyr;
- chwarae rôl a chymryd rhan mewn gweithgareddau megis dathliadau neu ddigwyddiadau ail-greu, neu arsylwi arnyn nhw;
- ystyried yr hyn sy'n dylanwadu ar bobl wrth iddyn nhw ymateb i gyfyng gyngor moesegol, datrys problemau gwirioneddol a phresennol, ac ystyried digwyddiadau yn y gorffennol;
- profi ac ystyried dirgelwch a rhyfeddod y byd naturiol, lleoliadau hanesyddol a safleoedd crefyddol a diwylliannol;
- arsylwi a chymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol sy'n helpu dysgwyr i ddeall profiadau dynol;
- archwilio a thrin a thrafod arteffactau a gwrthrychau crefyddol, gan gynnwys testunau cysegredig a thestunau eraill;
- ymweld â mannau addoli lleol ynghyd â lleoedd, tirweddau ac amgylcheddau arbennig eraill, gan gynnwys rhai sydd â dimensiwn crefyddol ac ysbrydol arwyddocaol;
- cwrdd â phobl y mae ffydd a chred yn bwysig iddyn nhw er mwyn helpu dysgwyr i archwilio profiadau bob-dydd;
- gofyn cwestiynau mawr sy'n ymwneud â phwerau uwch neu realiti eithaf, y byd, ystyr a phwrpas bywyd a'u profiadau eu hunain;
- trin a thrafod gwahanol fathau o ffynonellau crefyddol ac anghrefyddol er enghraifft arweinwyr crefyddol, pobl â ffydd a chred, athronwyr, mannau addoli, arteffactau, testunau cysegredig a gweithiau athronyddol;
- dysgu sut i ymateb i gredoau ac argyhoeddiadau pobl eraill gan ystyried a dadansoddi eu safbwyntiau a'u gwerthoedd eu hunain ar yr un pryd.

Hefyd, er mwyn cyfoethogi profiadau dysgwyr o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, mae angen i ysgolion a sefydliadau archwilio eu lle yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach fel cam pwysig yn y broses o gynllunio eu cwricwlwm. I ategu hyn, gall ysgolion a sefydliadau ymchwilio i'r grwpiau ffydd a chred a gynrychiolir yn lleol ym Merthyr Tudful a ledled Cymru, yn ogystal â lleoedd a mannau cysegredig, yn y gorffennol a'r presennol.

# Adran 6:

# Ysbrydolrwydd

Mae rôl a chyflwyniad Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn bwysig wrth helpu i annog datblygiad ysbrydol y dysgwyr.

"Ysbrydolrwydd yw'r agwedd ar ddynoliaeth sy'n cyfeirio at y ffordd y mae unigolion yn ceisio ac yn mynegi ystyr a phwrpas a'r ffordd y maent yn profi eu cysylltiad â'r foment, â'r hunan, ag eraill, â natur ac â'r hyn sy'n arwyddocaol neu'n gysegredig" (Puchalski et al, 2009, tud 887).

Cydnabyddir y gall "ysbrydolrwydd" fod yn grefyddol neu'n anghrefyddol ac mae'n gyfrifoldeb ar draws y cwricwlwm cyfan i'r holl gymuned ddysgu ym mhob ysgol a sefydliad, tra cydnabyddir fod yna arwyddocâd penodol i archwilio "ysbrydolrwydd" o fewn Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ogystal â Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau.

Yng nghyd-destun CGM, mae datblygiad ysbrydol yn ymwneud â'n gallu naturiol i chwilio am yr hyn sy'n bwysig mewn bywyd, ei fynegi a'i ddeall, ac i gwestiynu pwy ydym ni a pham rydym ni yma. Gall datblygiad ysbrydol gynnwys crefydd neu beidio. Trwy brofi cydberthnasau a myfyrio yn eu cylch, gall datblygiad ysbrydol ddod i'r amlwg yn y canlynol: hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill; cysylltiadau â'r byd ehangach a'r byd naturiol (ac, i rai pobl, â phŵer uwch neu realiti eithaf); creadigrwydd a mynd y tu hwnt i'r cyffredin; archwilio cwestiynau eithaf a myfyrio ynghylch ystyr a phwrpas.

<u>Hunanymwybyddiaeth mewn perthynas â phobl eraill</u>
Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- meithrin ymdeimlad o'u natur unigryw a'u gwerth;
- myfyrio ynghylch eu credoau, eu gwerthoedd a'u gweithredoedd eu hunain, gan fynegi a chyfiawnhau eu teimladau a'u safbwyntiau eu hunain;
- datblygu dyheadau a dysgu dygymod â siom;
- dangos empathi ac ystyriaeth at eraill;
- datblygu trugaredd a helpu eraill;
- datblygu llais a gwrando ar leisiau pobl eraill a'u parchu;
- meithrin cydberthnasau da;
- siarad amdanyn nhw eu hunain mewn perthynas â phobl eraill, y byd a/neu bŵer uwch neu realiti eithaf;
- meithrin ymwybyddiaeth o gredoau, dysgeidiaeth ac arferion pobl eraill, a pharch tuag atyn nhw, yn ogystal â'r gallu i fynegi eu rhai nhw eu hunain;
- ystyried effaith credoau ac arferion crefyddol ac anghrefyddol ar fywydau unigolion, y gymuned leol a chymdeithas ehangach.

<u>Cysylltu â'r byd ehangach a'r byd naturiol</u>
Gall dysgwyr wneud y canlynol:

- datblygu gwerthfawrogiad o'r ffaith eu bod yn perthyn i'w hardal leol, i Gymru ac i'r byd ehangach;

- profi’r byd naturiol, gwerthfawrogi’r amgylchedd a gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy i bawb;
- profi cyfoeth yr ysgogiadau o’u cwmpas trwy ddefnyddio’r synhwyrau;
- profi bod yn bresennol yn y foment;
- datblygu ymwybyddiaeth o’r byd o’u cwmpas, a’u lle ynddo;
- gwneud synnwyr o’u profiad o’r byd naturiol a chydberthnasau dynol.

<u>Creadigrwydd a mynd y tu hwnt i’r cyffredin</u>
Gall dysgwyr wneud y canlynol:
- datblygu creadigrwydd a defnyddio eu dychymyg;
- profi rhyfeddod neu gael eu syfrdanu gan bethau;
- meithrin chwilfrydedd a datblygu mewnwelediad.

<u>Archwilio cwestiynau eithaf ac ystyried ystyr a phwrpas</u>
Gall dysgwyr wneud y canlynol:
- gofyn, ystyried a myfyrio ar y cwestiynau eithaf (y cwestiynau “mawr” ynghylch bywyd);
- darganfod ystyr a phwrpas yn eu bywydau eu hunain;
- profi’r hyn sydd y tu hwnt i’r cyffredin.

Gall datblygiad ysbrydol hefyd ddigwydd wrth i ddysgwyr ymgysylltu â’u cynefin, a gall ddigwydd mewn bywyd bob dydd yn eu cymunedau lleol, cenedlaethol a byd-eang.

Mae’r Canllawiau ar Grefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn sôn am ysbrydolrwydd a datblygiad ysbrydol.

## Adran 7:

## Yr Hawl i Dynnu'n Ôl yn y Cwricwlwm i Gymru

"Nid oes gan rieni hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn y Cwricwlwm i Gymru."
https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/y-dyniaethau/cynllunio-eich-cwricwlwm/#religion,-values-and-ethics-guidance

Cyflwynwyd yr hawl i rieni/gwarcheidwaid dynnu'u plant allan o Addysg Grefyddol am y tro cyntaf yn Neddf Addysg 1870. Fe'i hailgyflwynwyd yn Neddf Addysg 1944 a'i hailddeddfu yn Neddf 1988 ac nid oes unrhyw ddeddf ddilynol wedi gwrthdroi'r sefyllfa honno - hyd nes yn awr yng Nghymru. O dan y newidiadau hyn, Cymru fydd y rhan gyntaf o'r DU i gael gwared ar yr hawl i optio allan o addysg grefyddol.

Wrth i'r Cwricwlwm i Gymru gael ei gyflwyno fesul cam, bydd CGM yn ofyniad statudol yn y Cwricwlwm i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed.

Gyda chyflwyniad y Cwricwlwm i Gymru, mae Llywodraeth Cymru wedi achub ar y cyfle i ddiddymu'r hawl sydd gan rieni/gwarcheidwaid i dynnu'u plant allan o wersi Addysg Grefyddol, neu wersi Crefydd, Gwerth a Moeseg fel y'u gelwir yn awr. Fodd bynnag, nid yw'r hawl hon yn cael ei thynnu'n ôl ar yr un pryd ar gyfer pob grŵp oedran. Bydd dyddiad dileu'r hawl hon yn dibynnu ar ba grŵp blwyddyn y mae'r plentyn ynddo. Caiff yr hawl hon ei dileu ar gyfer pob plentyn oed cynradd o 1 Medi 2022, sef y dyddiad y caiff y Cwricwlwm i Gymru ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd. Ar gyfer disgyblion Blwyddyn 7, bydd dyddiad tynnu'r hawl hon yn ôl yn dibynnu a yw'r ysgol uwchradd y mae'r disgybl yn ei mynychu yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ym mis Medi 2022 neu fis Medi 2023. Os bydd yr ysgol yn cyflwyno'r cwricwlwm newydd ar 1 Medi 2022, yna dyna'r dyddiad y caiff yr hawl ei thynnu oddi ar ddisgyblion Blwyddyn 7. Fodd bynnag, pe bai ysgol uwchradd yn dewis aros tan fis Medi 2023 cyn gweithredu'r cwricwlwm newydd, yna dyna'r dyddiad y bydd disgyblion Blwyddyn 7 yn colli'u hawl i dynnu'n ôl. Yn y bôn, bydd disgyblion Blwyddyn 8-11 yn colli'u hawl i dynnu'n ôl yn y blynyddoedd dilynol. Dyma'r amserlen ar gyfer dileu'r hawl i dynnu'n ôl o wersi CGM:

| | | |
|---|---|---|
| Disgyblion Oed Cynradd | – | Medi 2022; |
| Disgyblion Blwyddyn 7 | – | Medi 2022 NEU Fedi 2023, yn dibynnu ar ba bryd y cyflwynir y Cwricwlwm i Gymru yn eu hysgol; |
| Disgyblion Blwyddyn 8 | – | Medi 2023; |
| Disgyblion Blwyddyn 9 | – | Medi 2024; |
| Disgyblion Blwyddyn 10 | – | Medi 2025; |
| Disgyblion Blwyddyn 11 | – | Medi 2026. |

Mae'r amserlen uchod yn golygu bod yna bosibilrwydd clir y caiff hawl rhai plant i dynnu'n ôl ei dileu wrth i blant eraill o'r un teulu gadw'r hawl honno, efallai am sawl blwyddyn i ddyfod.

Mae gweinidogion wedi dadlau bod gwneud y pynciau'n orfodol yn sicrhau bod pob plentyn yn cael gafael ar wybodaeth bwysig a'i bod yn gyson â statws pynciau eraill. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynnu na fyddai'r cwricwlwm yn torri hawliau dynol y plentyn na'r rhieni/gwarcheidwad. Mewn ymateb i bryderon a godwyd, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r fframwaith deddfwriaethol a'r canllawiau arfaethedig yn gydnaws â'r hawliau a warchodir gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

Bydd CGM yn cael ei gyflwyno mewn modd "gwrthrychol, beirniadol a plwraliaethol" ac ni fydd hawl i dynnu'n ôl o'r pwnc, yn unol â phynciau eraill y cwricwlwm.

# Adran 8:

# Addysgu Pynciau Sensitif a Llosg

**Addysgu pynciau llosg: Canllaw i athrawon**
Mae'r canllaw hwn yn ymchwilio i werth defnyddio dull dinasyddiaeth fyd-eang wrth addysgu pynciau llosg i bob grŵp oedran. Mae'n cynnwys canllawiau, strategaethau ystafell ddosbarth a gweithgareddau addysgu ymarferol.

https://hwb.gov.wales/repository/resource/dda70ba6-e800-4a61-a066-5ab2608c12cf

# Adran 9:

# Cynadleddau Maes Llafur Cytûn Merthyr Tudful a'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS) ar CGM

## Awdurdod Lleol Merthyr Tudful

Awdurdod Lleol Merthyr Tudful sy'n gyfrifol am weinyddu'r Cynadleddau Maes Llafur Cytûn.

Mae'n ofynnol i Awdurdod Lleol Merthyr Tudful sefydlu a chefnogi Cynhadledd Maes Llafur Cytûn a fydd:

- yn paratoi maes llafur ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg i'w fabwysiadu gan Awdurdod Addysg Lleol Merthyr Tudful a all gynnig darpariaeth wahanol mewn perthynas â disgrifiadau gwahanol o'r canlynol:

  (a) ysgolion a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol;

  (b) dysgwyr;

- yn sicrhau bod y maes llafur yn adlewyrchu'r ffaith:

  (a) mai traddodiadau Cristnogol yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru yn bennaf, gan ystyried ar yr un pryd ddysgeidiaeth ac arferion y prif grefyddau eraill a gynrychiolir yng Nghymru;

  (b) bod gan bobl yng Nghymru amrywiaeth o argyhoeddiadau athronyddol anghrefyddol;

- yn ystyried unrhyw ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru;

- yn sicrhau bod unrhyw is-bwyllgorau a benodir gan y Gynhadledd yn cynnwys o leiaf un aelod o bob un o'r pwyllgorau sy'n rhan o'r Gynhadledd;

- yn rhoi un bleidlais yn unig i bob un o'r pwyllgorau sy'n rhan o'r Gynhadledd, ar unrhyw gwestiwn y bydd y Gynhadledd neu unrhyw un o'i his-bwyllgorau yn penderfynu arno;

- yn ceisio cytundeb unfrydol wrth argymell Maes Llafur CGM i'w fabwysiadu gan Awdurdod Addysg Lleol Merthyr Tudful.

Mae Cynhadledd Maes Llafur Cytûn yn cwrdd yn gyhoeddus ac yn cael ei chadeirio gan rywun a benodir gan yr Awdurdod Lleol.

Bryd bynnag y bydd Awdurdod Lleol Merthyr Tudful o'r farn (ar sail sylwadau a wneir iddo neu fel arall) y dylid ailystyried y Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM, yr Awdurdod Lleol fydd yn gyfrifol am ymgynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytûn at y diben hwnnw. Dylai unrhyw Gynhadledd a drefnir i ailystyried y Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM gael ei chynnal o fewn pum mlynedd i'r union ddiwrnod pan fabwysiadodd yr Awdurdod Lleol y Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM.

Fel mater o bwys, mae CYS Merthyr Tudful yn awyddus iawn i gefnogi ymarferwyr CGM trwy gynnal aelodaeth amrywiol. Mae CYS Merthyr Tudful wedi ymrwymo i helpu a chefnogi ysgolion ym Merthyr Tudful i gyflawni eu gofyniad cyfreithiol i ddilyn Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru, Deddfwriaeth CGM a'r Canllawiau CGM, ynghyd â "rhoi sylw" i'r Maes Llafur Cytûn Lleol.

**Rôl a Chyfrifoldebau'r Gynhadledd Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM yn Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf**

Rôl y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn yw paratoi Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM mewn Awdurdod Lleol. Yn rhinwedd Deddf Addysg 1944, rhaid i Awdurdod Lleol gynnull corff achlysurol a elwir yn "Gynhadledd Maes Llafur Cytûn" i gynhyrchu ac argymell Maes Llafur Cytûn ar gyfer CGM sy'n bodloni gofynion Deddf Cwricwlwm Cymru 2021 yn llawn, gan roi sylw i'r "pedwar diben" a amlinellir yn y Cwricwlwm i Gymru.

Er y gall cyfansoddiad y Gynhadledd Maes Llafur Cytûn (y Gynhadledd) olygu fod ganddi aelodaeth yn gyffredin â'r CYS lleol, mae'n endid cyfreithiol ar wahân a rhaid ei chynnull ar wahân. Er y gall pwyllgorau a chynrychiolwyr CYS fod yn rhan o'r Gynhadledd, mae'n endid ar wahân ac ni ddylid drysu rhwng rolau'r Gynhadledd a'r CYS. Fodd bynnag, er y gall CYS gynnwys aelodau cyfetholedig nad ydynt yn aelodau o unrhyw un o'r tri phwyllgor, nid oes gan y Gynhadledd ddarpariaeth i gynnwys aelodau cyfetholedig. Er na ellir dirprwyo'r dasg o gynhyrchu maes llafur, ac eithrio i is-bwyllgor o'r Gynhadledd (sy'n gorfod cynnwys o leiaf un aelod o bob pwyllgor sy'n rhan ohoni), ni ellir rhwystro'r Gynhadledd rhag derbyn cyngor gan grwpiau neu unigolion allanol. Fodd bynnag, dim ond y Gynhadledd a all argymell Maes Llafur Cytûn i'r Awdurdod Lleol a rhaid i'r pwyllgorau sy'n ffurfio'r Gynhadledd gytuno'n unfrydol ar yr argymhelliad hwnnw.

Mae'n rhaid i Gynhadledd Maes Llafur Cytûn gwrdd o leiaf bob pum mlynedd i adolygu'r Maes Llafur Cytûn a gwneud pa newidiadau bynnag sydd eu hangen. Er hynny, os gall Pwyllgorau A a B y Gynhadledd ofyn i'r Awdurdod Lleol ailystyried ei Faes Llafur Lleol, rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnull ei Gynhadledd Maes Llafur Cytûn. Yn yr un modd, gall yr Awdurdod Lleol gynnull Cynhadledd Maes Llafur Cytûn gan ofyn ei bod yn ystyried ac yn gwneud unrhyw ddiwygiadau angenrheidiol i'r Maes Llafur presennol cyn i'r adolygiad pum mlynedd statudol ddirwyn i ben.

Ar gyfer ysgrifennu'r Maes Llafur Cytûn dan sylw, penododd Awdurdod Lleol Merthyr Tudful bobl i'r Gynhadledd sy'n cynrychioli deiliaid credoau athronyddol anghrefyddol yn ogystal â rhai sy'n cynrychioli deiliaid credoau crefyddol.

**Rôl CYSau (CYSAGau) wrth gefnogi CGM yn y cwricwlwm newydd**

Yr unig newidiadau deddfwriaethol a ddaeth yn sgil y Ddeddf mewn perthynas â Chynghorau Ymgynghorol Sefydlog yw a) ei gwneud yn glir bod yn rhaid i unrhyw

Faes Llafur Cytûn ar gyfer CGM adlewyrchu credoau crefyddol a hefyd credoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol o fewn ystyr E2P1, a b) darparu ar gyfer penodi personau sy'n cynrychioli pobl â chredoau athronyddol anghrefyddol yn yr un modd ag y maen nhw'n caniatáu penodi personau sy'n cynrychioli pobl â chredoau crefyddol ar Bwyllgor A.

Ar wahân i'r ddau newid deddfwriaethol hynny, mae rôl a chyfrifoldeb CYS yn parhau fel ag yr oeddent pan adwaenid y corff fel CYSAG. Mae Deddf Diwygio Addysg 1988 yn ei gwneud hi'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol sefydlu Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) i gynghori'r Awdurdod Lleol ar faterion sy'n ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd. O ganlyniad i'r Ddeddf, mae'r corff hwn wedi'i ailenwi'n "Gyngor Ymgynghorol Sefydlog" (CYS). Mae'r CYS yn cynnwys tri phwyllgor ar wahân, a elwir yn A, B ac C. Mae Pwyllgor A yn cynnwys cynrychiolwyr o enwadau Cristnogol a chrefyddau eraill sy'n amlwg yn ardal yr Awdurdod Lleol, yn ogystal â chynrychiolwyr credoau anghrefyddol sy'n argyhoeddiadau athronyddol (gweler y paragraff blaenorol). Mae Pwyllgor B yn cynnwys Cynrychiolwyr y gwahanol Undebau Athrawon gyda golwg ar amgylchiadau'r ardal, ac mae Pwyllgor C yn cynnwys Aelodau Etholedig y Cyngor Lleol sy'n cynrychioli'r Awdurdod Addysg Lleol. Fodd bynnag, mae ei swyddogaeth yn parhau i fod yr un fath ag yr oedd pan gafodd ei adnabod fel CYSAG, h.y. cynghori'r Awdurdod Lleol ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig â CGM ac Addoli ar y Cyd. Prif ddiben CYSAG Merthyr Tudful, ac felly CYS yn awr, yw "cynghori'r Awdurdod Lleol ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg CGM sydd i'w rhoi yn unol â Maes Llafur Cytûn ag y bydd yr Awdurdod yn eu cyfeirio at y CYS, neu ag y gwêl y Cyngor yn dda" [Deddf Diwygio Addysg 1988 A11(1)(a)]. Mae pwerau eraill a roddwyd i CYSau yn rhinwedd Deddf Diwygio Addysg 1988 yn golygu y gall fynnu bod yr Awdurdod Lleol yn adolygu ei Faes Llafur Cytûn presennol. Ymhellach, mae'n rhaid iddo ystyried ceisiadau a wneir gan Bennaeth na fydd gofyn i addoli ar y cyd mewn ysgolion fod yn gyfan gwbl neu'n bennaf o natur Gristnogol wrth ddarparu ar gyfer pob un neu rai o'r disgyblion mewn ysgol benodol.

Rôl eang CYS Merthyr Tudful yw cefnogi'r dasg o ddarparu CGM yn effeithiol mewn ysgolion. Bydd Awdurdod Lleol Merthyr Tudful yn gweithio gyda'i CYS i adolygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer CGM ac i ystyried gyda'i CYS a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r maes llafur presennol neu yn y cymorth a gynigir i ysgolion. Mater i Awdurdod Lleol Merthyr Tudful yw penderfynu pa faterion y mae'n dymuno eu cyfeirio at ei CYS ond yn ôl Deddf Diwygio Addysg 1988 (ac nid yw hyn wedi'i newid gan Ddeddf Cwricwlwm Cymru 2021), dylai gynnwys dulliau addysgu, y dewis o ddeunyddiau addysgu a hyfforddiant i athrawon. Fodd bynnag, nid yw CYS wedi'i gyfyngu i roi cyngor ar faterion a gyfeiriwyd ato gan Awdurdod Lleol Merthyr Tudful; caiff gynnig cyngor ar unrhyw faterion sy'n ymwneud â'i swyddogaethau fel y gwêl yn dda. Er nad oes unrhyw rym statudol i'r cyngor a gynigir gan CYS, dylai Awdurdod Lleol Merthyr Tudful a'i ysgolion bob amser roi ystyriaeth ofalus i unrhyw gyngor a ddaw o du CYS Merthyr Tudful.

Bydd Awdurdod Lleol Merthyr Tudful yn rhoi gwybodaeth lawn i'w CYS ar bob mater sy'n ymwneud â CGM yn ei ysgolion, a bydd y CYS yn parhau i gyflawni'i rôl fonitro mewn perthynas â safonau addysg CGM yn ysgolion yr Awdurdod Lleol.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â CYS Lleol Merthyr Tudful, mae croeso ichi gysylltu â Chlerc CYS Merthyr Tudful am ragor o fanylion:

**Michelle.edmunds@merthyr.gov.uk**